

# SWYDDOGAETHAU ERAILL

**Mae angen llawer o wahanol swyddogaethau i redeg clwb pêl droed ar lawr gwlad.**

Mae'r adran yma'n rhoi crynodeb o swyddogaethau eraill y gallwch chi ymwneud â hwy ac esboniad byr o'u cyfrifoldebau i fod yn llwyddiannus yn y rôl. Mae rhai o'r swyddogaethau yn swyddogaethau y dylid eu hystyried yn seiliedig ar amgylchiadau eich clwb eich hun.



## SWYDDOGAETHAU ERAILL

Mae llawer o glybiau llwyddiannus wedi cyflwyno swyddogaethau mwy anffurfiol hefyd a all fod yn rhan o'r pwyllgor neu a all 'helpu' swyddogaethau eraill yn unig. Gall y swyddogaethau anffurfiol hyn ychwanegu gwerth gwirioneddol ar adegau yn ystod y tymor a gallant fod yn fan cychwyn gwych i ddarparu aelodau pwyllgor - felly gwnewch hwn yn brofiad gwych!

## AELOD O'R PWYLLGOR/BWRDD

Efallai y bydd gan rai clybiau un neu fwy o aelodau pwyllgor 'cyffredinol' sy'n chwarae rhan bwysig yn cefnogi'r clwb. Ystyriwch greu disgrifiad rôl ar gyfer y rôl hon, gan ddarparu tasgau penodol y gellid eu gwneud fesul tymor ac ystyried recriwtio'r gefnogaeth fwy cyffredinol hon gan eich cynorthwyr fel y manylir isod. Gan ddibynnu ar faint a strwythur cyfreithiol y clwb, gall y swyddogaethau hyn chwarae rhan fel 'Aelod Pwyllgor neu Fwrdd Annibynnol' a byddant yn helpu i ddarparu arbenigedd neu gyngor yn wrthrychol i gefnogi'r clwb.

## CYNORTHWY-YDD CLWB

Rhywun sy'n helpu yn achlysurol, gyda phopeth o arlwyo neu luniaeth ar ddiwrnod gêm i gefnogi digwyddiadau'r clwb. Gall creu tîm o gynorthwyr apelio at gefnogwyr y clwb sy'n hapus i gymryd rhan yn achlysurol.

## CEFNOGWR/CYNORTHWY-YDD TÎM

Yn aml bydd hyfforddwyr timau neu reolwyr timau'n cael cefnogaeth ychwanegol sy'n helpu gyda thasgau gweinyddu neu'n darparu cefnogaeth gyffredinol 'oddi ar y cae' wrth hyfforddi neu ar ddiwrnod gêm.

Gellir defnyddio disgrifiadau rôl neu dasgau i helpu darparu gynorthwyr i ddeall beth fydd yn gysylltiedig, ond byddwch yn ofalus rhag gwneud hyn yn rhy ffurfiol oherwydd gallai wneud i rai pobl benderfynu peidio â chymryd rhan.

